



Bydd yr adroddiad hwn yn edrych ar rai o brif gyflawniadau a llwyddiannau blwyddyn 2 y cais CGI



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio drosoch chi  
Working for Cardiff, working for you





“Cyn i fi ddod yn gwsmer i Teleofal Caerdydd, roeddwn ar y llawr am dros 6 awr yn dilyn cwmpiad. Pan gwypais yn ddiweddar, ymatebodd Teleofal Caerdydd i fi o fewn 20 munud. Mae’r gwasanaeth hwn wedi profi’n allweddol i fi a fy nheulu, mae’r tawelwch meddwl yn gwybod y bydd rhywun yn ymateb i fi 24 awr y dydd yn amhrisiadwy.”

---

**Mrs Jones** - Defnyddiwr Gwasanaeth Teleofal Caerdydd

## Cyflwyniad


Mae Teleofal Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cynnig gan y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r cynnig yn cyfateb i gyfanswm o £450,000, sydd i'w dalu dros gyfnod o dair blynedd. Bydd hyn yn galluogi Teleofal Caerdydd i gynnig offer am ddim i **bob** defnyddwyr gwasanaeth posibl newydd. Ni fydd yr offer yn gyfyngedig i'r crogdllws a'r Larwm Achub yn unig, ond bydd ar gyfer **pob** dyfais yn ein stocrestr. Bydd hyn yn cynnwys yr holl synwryddion ymylol megis synwryddion mwg, synwryddion carbon monocsid a synwryddion gwely, ymysg eraill.

Gofynnir i bob unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio at wasanaethau Teleofal Caerdydd gwblhau asesiad. Mae'r asesiad wedi cael ei ailwampio i gynnwys y peryglon sy'n gysylltiedig â byw gartref. Pan gaiff peryglon penodol eu nodi, bydd synwryddion teleofal yn cael eu cynnig yn rhan o 'becyn gosod'. Mae hyn yn sicrhau y bydd Teleofal Caerdydd yn rhoi mwy o bwyslais ar '**ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**'. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn gyfrifol am dalu cost barhaus y gwasanaeth, er bod meini prawf penodol a allai alluogi iddo gael ei dalu drosto.


Yn hanesyddol, mae Teleofal Caerdydd wedi ymddangos ar ddwy ffurf, Teleofal a Teleofal+. Drwy godi'r rhwystr o dalu'r gost untro, gobeithiwn y bydd rhagor o bobl yn derbyn pecynnau gwell a phwrpasol, sy'n cynnwys synwryddion ymylol sydd wedi'u teilwra iddynt.

Mae cydweithredu wedi'i nodi fel un o'r elfennau allweddol ar gyfer llwyddiant o fewn amserlen 3 blynedd y gronfa. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda'n partneriaid o wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth o Teleofal yn cael eu cynnal drwy gydol cyfnod y cais yn y Smart House i annog gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddysgu mwy am fanteision teleofal.

## Poblogaeth sy'n Heneiddio




Dros y **10 mlynedd** diwethaf, mae nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw yng Nghaerdydd **wedi cynyddu 13%**



Cynyddodd yr **unigolion dros 90 oed 57%**

Ar hyn o bryd mae gennym ni **5,057** o ddefnyddwyr gwasanaeth (ac eithrio i gwsmeriaid sy'n cael eu gwarchod)



O'r bobl dros 65 oed sy'n byw yng Nghaerdydd, mae gennym ni **11%** ar hyn o bryd sy'n derbyn ein gwasanaeth teleofal

## Canlyniadau



Mae **86%**

wedi cytuno'n gryf eu bod wedi gwella eu gwybodaeth am y gwasanaeth teleofal



Mae **74%**

wedi cytuno'n gryf eu bod wedi dysgu sgiliau newydd y byddant yn gallu eu rhoi ar waith yn eu rôl



Mae **83%**

wedi cytuno'n gryf bod y cwrs yn hwyllog



Mae **81%**

wedi cytuno'n gryf bod y cwrs yn berthnasol iddynt hwy a'u rôl

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Teleofal

Prif nodau ac amcanion pob sesiwn oedd cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o Teleofal fel ffordd o gefnogi byw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref. Bu newidiadau enfawr i brosesau presennol o ran ariannu, dyrannu technoleg a'r broses ymgeisio gyffredinol yr oedd yn rhaid eu cyfleu i'r mynychwyr. Prif bwyslais y sesiynau oedd hysbysu'r rhai a oedd yn bresennol bod yr holl offer teleofal bellach ar gael am ddim oherwydd llwyddiant y cais CGI, ac yn dilyn asesiad byddai'n cael ei ddarparu i'r rhai sydd angen technoleg gynorthwyol.





Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi bob wythnos o gais blwyddyn 1, ond gwnaethom benderfynu ar gyfer blwyddyn 2 i gynnal y sesiynau hyn yn fisol. Mae gwir angen cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n gwasanaeth ymysg y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau rheng flaen.

Defnyddiwyd dulliau amrywiol i sicrhau bod y sesiynau'n werthfawr ac yn ddiddorol i'r rhai a oedd yn bresennol. Dechreuodd y sesiynau gyda chyflwyniadau yn yr ystafell fyw yn y Smart House. Roedd yn gyfle i'r mynychwyr gyflwyno'u hunain a rhwydweithio, gan fod llawer o groesi rhwng rolau penodol.



“Roedd yn wych dysgu am yr holl wahanol dechnolegau y gellir eu rhoi yng nghartref rhywun er mwyn gwneud iddynt deimlo’n ddiogel. Roedd y cwrs yn wych ac yn cael ei gyflwyno gyda brwdfrydedd a gofal.”

**Sian** - Swyddog Hybiau Cymunedol



## Gosodiadau

**1331**

o gysylltiadau newydd

**229** neu **22%**

wedi optio ar gyfer y **gwasanaeth Cyswllt yn Unig**

**308**

o gwsmeriaid presennol wedi derbyn **technoleg gynorthwyol ychwanegol**

**794** neu **78%**

wedi optio ar gyfer y **gwasanaeth Ymateb Symudol**

## Cefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth presennol

Yn ogystal â defnyddio'r CGI i ddarparu offer am ddim i gwsmeriaid newydd, rydym hefyd wedi parhau i gefnogi ein cwsmeriaid presennol.

Yn dilyn asesiad dros y ffôn gyda'n Tîm Gofal Cwsmeriaid, gallai cwsmeriaid presennol gael cymorth ychwanegol drwy ddefnyddio technoleg gynorthwyol.

Ers mis Mawrth 2019, rydym wedi ymweld â 308 o gwsmeriaid presennol ac wedi gosod technoleg newydd yn eu cartrefi, gan uwchraddio eu technoleg ar 'bresgripsiwn' i fod yn fwy pwrpasol ac wedi'i theilwra i'r unigolyn.

O synwryddion cwmp i synwryddion gwely a chadair, rydym yn parhau i ddarparu datrysiadau technoleg i'r unigolion mwyaf agored i niwed, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.



## Offer wedi'i gysylltu

O fis Mawrth 2019, rydym wedi gosod amrywiaeth o ddyfeisiau ac offer gwahanol i gynorthwyo ein cwsmeriaid yn eu cartrefi eu hunain. Amlygir yr offer mwyaf poblogaidd isod.

### Lifeline Vi

Uned larwm Lifeline wedi'i chysylltu â'r soced ffôn yn y cartref

1017



### iVi Synhwyrdd Cwmp

Dyfais berifferol, gydag algorithm synhwyrdd cwmp wedi'i adeiladu i mewn sy'n canfod cwmpiaid difrifol

248



### Keysafe

Keysafe cymeradwy gan yr heddlu i ganiatáu mynediad i nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol

*\*235 wedi eu gosod gan ein partneriaid yn y gwasanaeth Gofal a Thrwsio*

475\*



Mae rhai o'r dyfeisiau technoleg gynorthwyol eraill a osodwyd gennym wedi'u nodi isod

#### Dyfeisiau Synhwyrdd 76



#### Synhwyrdd CO 44



#### Galwr Ffug 12



#### Synhwyrdd Gwely 43



#### Synhwyrdd Cyffredinol 141



#### Synhwyrdd Epilepsi 8





## Y flwyddyn nesaf...

Byddwn yn parhau i gynnig technoleg gynorthwyol AM DDIM i bob cwsmer. Fel hyn gallwn barhau i gynnig y gwasanaeth gwych hwn a chyrraedd mwy o bobl. Mae'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn un sy'n cael ei fabwysiadu gan ddarparwyr teleofal lluosog ledled Cymru a gweddill y DU.

Mae nifer o ffactorau i'w hystyried pan fyddwn yn edrych i'r dyfodol gan fod y sefyllfa'n newid mewn ffordd sylweddol. Wrth fynd drwy newid digidol o'r gosodiad analog presennol, bydd llawer o heriau'n cael eu hwynebu.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd y paratoadau ar gyfer y trawsnewid digidol yn cael eu crynhoi, a bydd technoleg newydd yn cael ei chaffael gan ddefnyddio'r arian sydd gennym o'r CGI. Mae rhai enghreifftiau wedi'u hamlygu isod:



## System Monitro Gweithgarwch

Gwnaethom gaffael 12 o systemau monitro gweithgareddau gydag arian o flwyddyn 1, a fydd yn cael eu treialu gyda'r Gofalwyr Cartref yn y Tîm Adnoddau Cymunedol. Nod y cynllun peilot yw defnyddio'r data a gesglir o batrwm symud dyddiol unigolyn a datblygu cynllun gofal wedi'i deilwra. Gallai hyn arwain at ffigurau osgoi costau sylweddol.



## ARMED pilot

Caiff 20 o ddyfeisiau dolen begynol a ffonau clyfar eu dosbarthu i gwsmeriaid teleofal. Mae'r watshis yn canfod patrwm cysgu, amrywioldeb cyfradd curiad y galon a symudedd (stampiau camau ac anweithgarwch). Mae'r data'n cael ei fwydo i mewn i gwmwl, ac mae algorithmau'n canfod abnormaleddau a all arwain at rywun yn cwmpo, neu'n dioddef o salwch aciwt.